**Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol**

**Hawliau Digidol a Democratiaeth – Sesiwn ar Ddata Biometrig mewn Ysgolion.**

Dyddiad: 27 Mehefin 2022

**Yn bresennol:**

Nicco Kunzmann (NK)

Chloe Rees (CR)

Anne Tischer (AT)

Lynne Davies (LD)

Clair Gwilliam (CG)

Maddy Stone (MS)

Sarah Murphy AS (SM)

Jen Pearson (JP)

Emily H (EH)

David Clubb (DC)

Pippa King (PK)

**Agenda, nodiadau a chamau gweithredu**

Agorodd SM y cyfarfod.

Eglurodd SM ei diddordeb yn y pwnc, a oedd yn deillio o waith ymchwil ac ysbrydoliaeth yn ymwneud â phlentyn nad oedd am fod ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhoddodd bwyslais ar hawliau plant. Dywedodd fod diffyg goruchwyliaeth a gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o ddata biometrig mewn ysgolion. Mae ffurflenni caniatâd gan ysgolion yn nodi bod data biometrig yn fwy diogel, ac mae ysgolion yn credu hyn. Mae'r Llywodraeth wedi cael gwybod, ac mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus i ddysgu rhagor.

Dywedodd SM ei bod am wahardd defnydd y dechnoleg hon mewn ysgolion, a diolchodd i'r arbenigwyr am eu hamser.

**Cam Gweithredu 1. SM i gynnal dadl yn y Senedd ar waharddiad posibl**

Trosglwyddodd SM yr awenau i PK.

Rhoddodd PK drosolwg o'r sefyllfa, gan nodi nad yw Deddf Diogelu Data 1998 yn cynnwys data biometrig. Mae technoleg fiometrig wedi cael ei defnyddio mewn ysgolion ers 17 mlynedd. Mae PK wedi bod yn lobïo'r Senedd ers 7 mlynedd. Mae diffyg dealltwriaeth gan y Llywodraeth. Mae 58 y cant o ysgolion yn defnyddio'r dechnoleg hon. Nid oes gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw syniad pwy sy'n darparu'r dechnoleg. Cwmnïau byd-eang sy'n cynhyrchu'r technolegau.

- CRB Cunninghams, Bio Star, Meddalwedd Ymgynghori Canada

Nododd PK nad yw ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn costio dim i ysgolion. Mae cwmnïau technoleg yn hysbysebu technoleg fel rhywbeth sy'n tyfu gyda phlant. Mae'n dysgu adnabod wynebau.

Nid yw awdurdodau'n gwybod pa dechnoleg sy'n cael ei defnyddio. Gwyddom ei bod yn tarddu o offer amddiffyn milwrol.

Yn yr un modd, nid yw swyddogion y Llywodraeth yn rheoli'r sefyllfa hon. Y DU yw'r defnyddiwr mwyaf o dechnoleg fiometrig yn y byd gorllewinol.

Mae wedi'i gwahardd yn Florida.

Trosglwyddodd PK yr awenau i SM.

Dywedodd SM fod dwy o bob tair ysgol yn defnyddio data biometrig. Nododd SM fod corff o blant yn cael ei ddefnyddio fel trafodiad ar gyfer bwyd. Mae'r cyfiawnhad yn gwbl ddi-sail yn hyn o beth.

**Cam Gweithredu 2. SM i drafod y materion hyn â'r Comisiynydd Plant newydd.**

Trosglwyddodd SM yr awenau i MS.

Cafwyd cyflwyniad ynghylch Big Brother Watch, gan MS, sy'n gweithio i amlygu anghydbwysedd pŵer o ran cwmnïau technoleg. Mae'r anghydbwysedd hwn yn treiddio i mewn i ysgolion. Nid oes lle i Lywodraethau awdurdodaidd mewn democratiaeth.

Nododd MS fod arbenigwyr disglair ym maes cysylltiadau cyhoeddus yn gysylltiedig â chwmnïau technoleg, gan bwysleisio'r perygl o fod yn anymwybodol o'r defnydd sydd ohono.

Nid oes dim tystiolaeth bod y dechnoleg hon yn gweithio. Mae plant fel pe baent yn destun arbrawf.

Trosglwyddodd SM yr awenau i JP.

JP – Nid oes gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gallu i ymdrin â hyn. Mae'n tanseilio hawliau plant a'r hawl i breifatrwydd. Mae'n gamsyniad i feddwl bod technoleg yn niwtral.